Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales

# ADOLYGIAD O'R FFINIAU ETHOLAETHAU SENEDDOL YN SIR GADWEDIG DE MORGANNWG

# ADRODDIAD AR YR YMCHWILIAD LLEOL A GYNHALIWYD AR 24 MEHEFIN 2004 YN YSTAFELLOEDD PAGET, PENARTH

1. Ym mis Ionawr 2004 cyhoeddodd y Comisiwn Ffiniau i Gymru gynigion dros dro ar gyfer etholaethau seneddol yn Ne Morgannwg. Gwnaeth y Comisiwn hynny yn ystod y Pumed Adolygiad Cyffredinol o etholaethau seneddol yng Nghymru a gyhoeddwyd drwy hysbysiad ar 16 Rhagfyr 2002 a ddaeth wedyn yn "ddyddiad cyfrifo" at ddibenion yr adolygiad (Parliamentary Constituencies Act 1986 Adran 5 ac Atodlen 2). Yn yr adolygiad hwnnw, pennwyd y cwota etholiadol, sef cyfanswm nifer yr etholwyr yng Nghymru wedi'i rannu â nifer yr etholaethau presennol ynddi o'r dyddiad cyfrifo, fel 55,640 (fel ym mhob achos isod, cyfeirir at ffigurau "2003" gan mai 2003 yw'r flwyddyn gyntaf, pe bai etholiad yn cael ei chynnal, lle mai'r ffigur hwnnw fyddai nifer yr etholwyr).

2. Mae pum etholaeth seneddol ar hyn o bryd yn sir gadwedig De Morgannwg. Ers y Pedwerydd Adolygiad Cyffredinol, ym 1994, mae nifer yr etholwyr wedi cynyddu. Hefyd, bu newidiadau i ffiniau'r sir gadwedig hon, gan wneud nifer yr etholwyr ar y dyddiad cyfrifo yn 325,150. Y nifer blaenorol fyddai 317,369 ar yr un dyddiad cyfrifo. Ffigurau "2003" yw'r rhain. Mae cyfanswm o 325,150 o etholwyr wedi'i rannu â'r cwota etholiadol yn rhoi hawl ddamcaniaethol i etholaethau i 5.84 sedd.

3. Mae argymhellion dros dro y Comisiwn yn cadw 5 etholaeth yn hytrach na cheisio creu 6. Byddai creu 6 sedd yn golygu ail-lunio ffiniau etholaethau yn sylfaenol. Roedd y Comisiwn o'r farn na fyddai unrhyw ateb chwe-sedd yn foddhaol, yn anad dim oherwydd yr anghyfleustra a'r amharu ar gysylltiadau lleol y byddai hyn yn ei greu. Nid oedd unrhyw gynrychiolaethau i'r gwrthwyneb, a chafodd y cynnig i gadw 5 sedd gefnogaeth gref gan Blaid Lafur Cymru, Plaid Geidwadol Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Fodd bynnag, y canlyniad anochel yw mai'r cyfartaledd sirol ar gyfer y 5 sedd yn Ne Morgannwg yw cyfanswm etholwyr o 65,030, sy'n nifer uchel o gymharu â'r cwota etholiadol.

4. Nifer etholwyr y seddi presennol yw (ffigurau 2003):

| | |
|---|---|
| Cardiff Central BC | 60,864 |
| Cardiff North BC | 63,615 |
| Cardiff South and Penarth BC | 64,566 |
| Cardiff West BC | 59,626 |
| Vale of Glamorgan CC | 68,698 |

Y gwahaniaeth rhwng nifer fwyaf yr etholwyr a'r nifer lleiaf yw: 9,072.

5. O ganlyniad i newidiadau i ffiniau awdurdodau lleol a siroedd cadwedig yn sgil Local Government (Wales) Act 1994, mae rhan o etholaeth Pontypridd bellach yn sir gadwedig De Morgannwg, ac mae rhan o etholaeth bresennol Pen-y-bont ar Ogwr hefyd yn sir gadwedig De Morgannwg.

6. Argymhellion dros dro y Comisiwn oedd, i bob pwrpas, i gadw'r ffiniau presennol yn amodol ar y newidiadau canlynol:

(i) trosglwyddo o etholaeth Pontypridd i etholaeth Gorllewin Caerdydd rhanbarth etholiadol Pentyrch a rhan o ranbarth etholiadol Creigiau/ Sain Ffagan (mewn geiriau eraill, yr ardal honno o etholaeth Pontypridd sydd bellach yn rhan o sir gadwedig De Morgannwg);

(ii) trosglwyddo o etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr i etholaeth Bro Morgannwg rhanbarth etholiadol Saint-y-brid a rhan o ranbarth etholiadol Llandŵ/Ewenni (mewn geiriau eraill, yr ardal honno o etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr sydd bellach yn rhan o sir gadwedig De Morgannwg);

(iii) trosglwyddo etholaeth Bro Morgannwg i etholaeth De Caerdydd a Phenarth rhanbarth etholiadol Sili.

7. Deliaf â phob un yn eu tro.

8. Etholaeth Gorllewin Caerdydd. Mae rhanbarth etholiadol Creigiau/Sain Ffagan wedi'i rannu ar hyn o bryd rhwng Cardiff West BC (1,725 o etholwyr) ac Pontypridd CC (2,144 o etholwyr). Mae Creigiau/Sain Ffagan a Phentyrch bellach yn gyfan gwbl o fewn sir gadwedig De Morgannwg. Cynnig dros dro y Comisiwn yw y dylai'r cyfan fod yn etholaeth Gorllewin Caerdydd, sydd yn ôl ffigurau 2003 yn ychwanegiad o 4,961 o etholwyr (2,144 o etholwyr yng Nghreigiau/Sain Ffagan a 2,817 ym Mhentyrch). Byddai hyn yn rhoi cyfanswm o 64,587 o etholwyr yng Ngorllewin Caerdydd, sef gerllaw'r cyfartaledd sirol o 65,030.

9. Cafodd y cynigion gefnogaeth yn arbennig gan Blaid Lafur Cymru, Plaid Geidwadol Cymru, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, a, nodaf, Cyngor Cymuned Pentyrch; hefyd cefnogaeth gan blaid Lafur etholaethau De Caerdydd a Phenarth a Gorllewin Caerdydd, y Gwir Anrhydeddus Rhodri Morgan AC dros Orllewin Caerdydd, a Lorraine Barrett AC. Derbyniwyd gwrthwynebiadau gan Blaid Lafur etholaeth Pontypridd a Dr Kim Howells, yr AS presennol dros etholaeth Pontypridd.

10. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn weithredu'r Rheolau a nodir yn y Parliamentary Constituencies Act (Adran 3 ac Atodlen 2). Mae'r rheolau'n amodi "cyn belled ag sy'n ymarferol bosibl ni ddylai unrhyw sir neu ran o sir gael ei chynnwys mewn etholaeth sy'n cynnwys sir gyfan arall neu ran o sir arall" (Rheol 4(a)(i)); ond gall y Comisiwn wyro rhag gweithredu Rheol 4 yn fanwl os yr ymddengys iddo bod gwyro yn ddymunol er mwyn osgoi gormod o wahaniaeth rhwng niferoedd etholwyr unrhyw etholaeth a'r cwota etholiadol (Rheol 5).

11. Mae gan y Comisiwn bolisi cyson hefyd i ddefnyddio rhanbarthau etholiadol fel blociau adeiladu ar gyfer etholaethau ar y sail bod rhanbarthau etholiadol yn gyffredinol yn dangos ardaloedd sydd â diddordebau cyffredin, ac mae rhannu'r unedau hyn rhwng etholaethau yn debygol iawn o dorri cysylltiadau lleol, ac arwain at ymyrraeth neu anhawster.

12. Rwyf o’r farn bod achos cryf iawn dros y trosglwyddiadau a gynigir.

13. Mae’r cynigion yn dileu etholaeth yn croesi ffiniau sir gadwedig, yn unol â Rheol 4. Nid oes angen gwyro o’r Rheol hon, ac nid yw’n ddymunol, er mwyn osgoi gormod o wahaniaeth rhwng nifer etholwyr unrhyw etholaeth a’r cwota etholiadol, gan y bydd etholaeth Pontypridd o faint cyffredin (54,122 fel y’i cynigir, neu fwy pe bai gwrthwynebiadau’n llwyddo mewn perthynas â Chilfynydd a / neu Glyncoch). Y pryderon gwreiddiol a fynegwyd gan Dr Kim Howells AS oedd bod Creigiau a Phentyrch yn cael eu ‘gwthio’ i Orllewin Caerdydd, ond ni chafwyd unrhyw gynrychiolaethau gan drigolion lleol, ac nid wyf i wedi derbyn unrhyw dystiolaeth y byddai’r trosglwyddo yn achosi anhawster neu ei fod yn amhriodol ynddo’i hun. Cefnogwyd y newid gan Gyngor Cymuned Pentyrch, ac mae’r cynigion yn osgoi rhannu rhanbarth etholiadol Creigiau/Sain Ffagan rhwng etholaethau. Ymddengys bod yr ardaloedd dan sylw yn cydweddu’n ddigonol â Gorllewin Caerdydd ar lawr gwlad. Byddai’r newid yn esgor ar nifer etholwyr sy’n agos iawn yn wir at y cyfartaledd sirol, yn lle nifer a oedd 5,404 (neu oddeutu 8.3%) islaw’r cyfartaledd hwnnw.

14. Ni allwn ddod o hyd i dystiolaeth o bwys yn erbyn y newidiadau arfaethedig. Argymhellais fod cynigion dros dro y Comisiwn yn cael eu derbyn fan hyn.

15. <u>Etholaeth Bro Morgannwg – Saint-y-brid a Llandŵ/Ewenni</u>. Ar hyn o bryd mae rhanbarth etholiadol Llandŵ/Ewenni wedi’i rannu rhwng Bridgend CC (609 o etholwyr) ac Vale of Glamorgan CC (1,459 o etholwyr). Mae Llandŵ/Ewenni a Saint-y-brid bellach yn gyfan gwbl o fewn sir gadwedig De Morgannwg. Cynnig dros dro y Comisiwn yw y dylai’r cyfan fod yn etholaeth Bro Morgannwg, sydd yn ôl ffigurau 2003 yn ychwanegiad o 2,820 o etholwyr (609 o etholwyr yn Llandŵ/Ewenni a 2,211 yn Saint-y-brid). Byddai hyn yn rhoi cyfanswm naill ai o 71,518 o etholwyr ym Mro Morgannwg, os na wneir unrhyw newid pellach, neu 68,229 os caiff cynnig y Comisiwn i symud Sili i Dde Caerdydd a Phenarth ei fabwysiadu. Cyfanswm yr etholwyr yn eu tro

fyddai 6,488 uwchlaw'r cyfartaledd sirol (gan gynnwys Sili) neu 3,199 uwchlaw'r cyfartaledd sirol (heb gynnwys Sili).

16. Cefnogwyd y cynigion yn arbennig gan Blaid Lafur Cymru, Plaid Geidwadol Cymru, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a chan Gyngor Bro Morgannwg; gan Gymdeithas Geidwadol Pen-y-bont ar Ogwr a Phlaid Lafur De Caerdydd a Phenarth, ac fe'u derbyniwyd gan Lorraine Barrett AC dros Dde Caerdydd a Phenarth. Cafwyd gwrthwynebiadau gan Blaid Lafur Ewenni a'r Fro, sy'n cynrychioli aelodau yn y tair gymuned, Ewenni, Saint-y-brid a'r Wig (mae'r Wig yn rhanbarth etholiadol Saint-y-brid); gan Dr E A Bowers; a mynegwyd amheuon gan Jane Hutt AC dros Fro Morgannwg. Ysgrifennodd Mr John Smith, yr AS presennol dros Fro Morgannwg, mewn cynrychiolaeth hwyr ei fod yn croesawu'r cynigion yn gyffredinol gan eu bod yn ymwneud â'i etholaeth ef, ond mynegodd amheuon ar yr un pryd ynghylch tynnu Sili allan a dod â Saint-y-brid i mewn.

17. Yn yr Ymchwiliad, fe wnaeth y rheiny a gefnogodd y cynigion barhau i wneud hynny. Rhoddodd Mr Mansel Lalis o Gangen Ewenni a'r Fro o'r Blaid Lafur dystiolaeth yn eu herbyn.

18. Ei dystiolaeth ef oedd nad yw Saint-y-brid yn ddaearyddol yn fwy na 4 milltir o ganol tref Pen-y-bont ar Ogwr, ac nid yw Ewenni fawr fwy na milltir, tra bod y Barri 20 milltir i ffwrdd, (y Barri yw sedd swyddfeydd Cyngor Bro Morgannwg); bod cysylltiadau hanesyddol a diwylliannol rhwng yr ardaloedd y cynigir eu bod yn cael eu trosglwyddo i dref Pen-y-bont ar Ogwr; ac nad y ffiniau sirol fel ag y maent ar hyn o bryd oedd y ffiniau traddodiadol na'r man cychwyn gorau.

19. Dadleuwyd ar ran Plaid Geidwadol Cymru na allwn ystyried unrhyw gysylltiadau lleol fan hyn a allai gael eu torri gan newidiadau i ffiniau etholaethau. Gwneir y newidiadau at ddibenion Rheol 4 (etholaethau i beidio â chroesi ffiniau sirol). Mae Rheol 7 yn ei gwneud yn ofynnol bod y Comisiwn yn ystyried, cyn belled ag sy'n rhesymol bosibl,

"(a) yr anghyfleustra yn sgil newidiadau i etholaethau *heblaw am newidiadau a wneir at ddibenion rheol 4,* ac

(b) unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan *y cyfryw* newidiadau".

20. Rwy'n derbyn bod y newidiadau'n cael eu gwneud at ddibenion Rheol 4. Mae'n amlwg bod Rheol 7(a) yn eithrio'n benodol ystyried yr anghyfleustra yn sgil newidiadau at ddibenion rheol 4. Dadleuir bod Rheol 7(b) yn yr un modd yn eithrio ystyried newidiadau at ddibenion Rheol 4 am y rheswm yn 7(b) bod rhaid i'r "*cyfryw*" newidiadau gyfeirio at "newidiadau i etholaethau ac eithrio newidiadau at ddibenion Rheol 4" yn Rheol 7(a). Pe bai'r canlyniad hwn wedi'i fwriadu, byddwn wedi disgwyl geiriad gwahanol – a symlach o lawer – yn Rheol 7. Hefyd, gall fod rhesymau synhwyrol i wahaniaethu rhwng un polisi i ddelio ag anghyfleustra ac un arall i ddelio â thorri cysylltiadau lleol: yn hanfodol, ac o gofio y gall anghyfleustra fod yn ganlyniad anochel pan benderfynir mabwysiadu newid i ffiniau sirol. Mae'n well gennyf i y dehongliad bod Rheol 7(b) yn ei gwneud yn ofynnol bod ystyriaeth yn cael ei rhoi, cyn belled ag sy'n rhesymol bosibl, i gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri, yn amodol ar roi pwys ar Reol 4 sylfaenol.

21. Fodd bynnag, yn ôl y dystiolaeth, nid wyf yn ystyried y byddai llawer o gysylltiadau lleol yn cael eu torri. Ni chafwyd unrhyw gynrychiolaethau gan drigolion lleol ac eithrio Dr Bowers; nid adroddwyd bod unrhyw arolygon barn ffurfiol nac anffurfiol. Mae'r pellteroedd yn hwy i'r Barri nag i Ben-y-bont ar Ogwr, ond ychydig o dystiolaeth oedd y byddai hyn ynddo'i hun yn torri cysylltiadau lleol. Ewenni sydd filltir o ganol tref Pen-y-bont ar Ogwr, ond mae'r cynigion yn osgoi rhannu rhanbarth etholiadol Llandŵ/Ewenni rhwng etholaethau ac yn rhoi mwyafrif ei etholwyr yn yr un etholaeth ag yr oeddent o'r blaen, sef etholaeth Bro Morgannwg. Mae'r ardaloedd dan sylw yn debyg o ran cymeriad i Fro Morgannwg gyfan, ac ymddengys eu bod yn cydweddu'n ddigonol â hi ar lawr gwlad. Penderfynodd Cyngor Bro Morgannwg i gefnogi cynnwys yr ardaloedd hyn.

22. Nodaf fod Rheol 5 yn caniatáu i'r Comisiwn wyro o weithredu Rheol 4 yn fanwl os yr ymddengys iddynt fod gwyro'n ddymunol er mwyn osgoi gormod o wahaniaeth rhwng niferoedd etholwyr unrhyw etholaeth a'r cwota etholiadol, ond nid felly y mae yma cyn belled â bo Pen-y-bont ar Ogwr yn y cwestiwn : mae gan ei etholaeth nifer arfaethedig o 57,046 o etholwyr.

23. Deliaf ag effaith cadw neu hepgor Sili o etholaeth Bro Morgannwg isod. Ond o ystyried y Rheolau, ac ar ei theilyngdod lleol ei hun, rwyf o'r farn bod cynigion dros dro y Comisiwn ar gyfer Llandŵ/Ewenni a Saint-y-brid yn ddiwrthdro yn y pen draw, a byddwn yn argymell eu mabwysiadu.

24. Etholaethau De Caerdydd a Phenarth a Bro Morgannwg – Sili. Y mater yw pa un a ddylid lleihau etholaeth Bro Morgannwg o ran maint trwy drosglwyddo rhanbarth etholiadol Sili o etholaeth Bro Morgannwg i etholaeth De Caerdydd a Phenarth, fel y cynigia'r Comisiwn. Nifer etholwyr Sili ar y dyddiad cyfrifo yw 3,289. Byddai trosglwyddiad felly yn creu cyfanswm o 67,855 o etholwyr yn Ne Caerdydd a Phenarth a 68,229 ym Mro Morgannwg, bob un ohonynt lai na 5% uwchlaw'r cyfartaledd sirol, sef 65,030. Pe na bai'r trosglwyddo'n digwydd, yna nifer yr etholwyr yn Ne Caerdydd a Phenarth ar y dyddiad cyfrifo fydd 64,566 (0.71% islaw'r cyfartaledd sirol) a 71,518 ym Mro Morgannwg (9.97% uwchlaw'r cyfartaledd sirol). Y mater hwn a ddenodd y cynrychiolaethau mwyaf o bell ffordd.

25. Cafodd y cynigion eu cefnogi yn benodol gan Blaid Lafur Cymru, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, a chan Blaid Geidwadol Cymru yn y lle cyntaf, a hefyd gan Blaid Lafur De Caerdydd a Phenarth a Lorraine Barrett AC dros Dde Caerdydd a Phenarth. Cafwyd gwrthwynebiadau'n benodol gan Gyngor Bro Morgannwg, Cyngor Tref Penarth a Chyngor Cymuned Sili; hefyd gan y Cynghorydd Sir Anthony Ernest sy'n cynrychioli Ward Sili ar Gyngor Bro Morgannwg, a Phlaid Lafur Ewenni a'r Fro. Mynegwyd amheuon gan Jane Hutt AC dros Fro Morgannwg, ac mewn cynrychiolaeth hwyr gan John Smith, yr AS presennol dros Fro Morgannwg. Yn yr Ymchwiliad ei hun, gwrthwynebwyd trosglwyddo Sili gan Blaid Geidwadol Cymru. Clywais

dystiolaeth hefyd yn yr Ymchwiliad gan Mr Meyer (Plaid Geidwadol Cymru) y Cynghorydd Ernest, y Cynghorydd Maureen Owen, Mr Daniel (clerc i Gyngor Cymuned Sili), Mrs Stuart a'r Cynghorydd Barlow (bob un ohonynt yn gwrthwynebu trosglwyddo) a Mr Costa (Plaid Lafur Cymru) yn cefnogi.

26. Mae'r trosglwyddo arfaethedig yn sicrhau llawer mwy o gydraddoldeb etholiadol. Byddai gan y ddwy etholaeth gyfanswm o 67,855 (2,825 uwchlaw'r cyfartaledd sirol, sef 4.34%) a 68,229 (3,199 uwchlaw'r cyfartaledd sirol, sef 4.92%) yn eu tro. Heb drosglwyddo Sili, cyfanswm etholwyr etholaeth Bro Morgannwg fydd 71,518, sydd 15,878 neu 28.54% uwchlaw'r cwota etholiadol ar gyfer Cymru gyfan; a hyd yn oed ar ôl trosglwyddo Sili, hi fyddai'r etholaeth fwyaf yng Nghymru o hyd. Mae'r ddadl o blaid cydraddoldeb etholiadol yn un gref felly.

27. Dadleuwyd y byddai ymestyn ffin De Caerdydd a Phenarth 4 milltir i'r gorllewin yn gwneud yr etholaeth yn rhy fawr yn ddaearyddol ac/neu na fyddai gan Sili unrhyw beth yn gyffredin â materion ac ymgymeriadau ardaloedd trefol fel Trowbridge a Llanrhymni ym mhen dwyreiniol yr etholaeth honno. Fodd bynnag, ni fyddai'r cwmpas daearyddol yn anarferol; ac mae gan Benarth ei hun, a chanddo 5 rhanbarth etholiadol, gymeriad a diddordebau sy'n wahanol i'r ardaloedd hynny. Ymddengys i mi o'r dystiolaeth nad yw gwrthwynebwyr a thrigolion Sili yn anesmwyth yn gyffredinol ynghylch eu cysylltiadau â Phenarth ei hun. Mae Sili yn rhan o awdurdod lleol Cyngor Bro Morgannwg; ond felly hefyd Penarth, sydd yn etholaeth De Caerdydd a Phenarth ac yn rhoi ei henw iddi.

28. Rwyf o'r farn bod y gwrthwynebiad a wnaed ar y sail y byddai trosglwyddo yn torri hen gysylltiadau rhwng Sili â Bro Morgannwg a thref y Barri, yn gryfach. Mae mwyafrif yr etholwyr yn Sili yn byw ym mhentref Sili ei hun. Fe'i disgrifiwyd yn briodol fel pentref gwledig, arfordirol. Mae'r pentref wedi'i wahanu o Benarth gan ryw 2 neu 2½ milltir o gefn gwlad. Yn ei ben gorllewinol, mae'r pentref fwy neu lai yn rhedeg i mewn i ardal adeiledig y Barri ei hun, ac mae rhanbarth etholiadol Sili yn cynnwys cyfadeiladau

cemegol y Barri ac ystad ddiwydiannol Atlantic y byddai rhywun o'r tu allan yn disgrifio heb betruso fel rhan o'r Barri. Dywedwyd wrthyf bod trigolion Sili yn uniaethu â Bro Morgannwg a chyda'r Barri, fel sedd yr awdurdod lleol ac ar gyfer gwasanaethau lleol fel siopau.

29. Ni roddwyd y ffigurau cyflogaeth i mi ar gyfer trigolion Sili yng Nghaerdydd neu rywle arall; ond rwy'n derbyn efallai nad yw hyn o bwys mawr, gan fod llawer iawn bellach yn teithio yn Ne Cymru i weithio mewn ardaloedd gwahanol, a Chaerdydd yw'r canolbwynt ar gyfer dibenion lu ardal enfawr. Hefyd, rhoddodd y Cynghorydd Ernest dystiolaeth bod poblogaeth uchel iawn o bobl wedi ymddeol yn Sili.

30. Ymddengys o Adroddiad y Comisiynydd Cynorthwyol ym 1994 bod tystiolaeth yn yr adolygiad diwethaf o gysylltiadau cymunedol yn mynd y ddwy ffordd, o blaid neu yn erbyn trosglwyddo. Ychydig o dystiolaeth a dderbyniais o gysylltiadau lleol o blaid trosglwyddo. Er na fydd y cynnig yn newid cod post Sili neu'i awdurdod lleol at ddibenion etholiadau lleol a gwasanaethau, rwy'n fodlon fod rhywfaint o'r gwrthwynebiad i'r trosglwyddo yn deillio o gamddealltwriaeth am hyn, ac er na chynhaliwyd unrhyw arolwg barn yn Sili, mae'n eglur o dystiolaeth tystion bod cryn wrthwynebiad ymhlith trigolion Sili i'w gynnwys mewn etholaeth seneddol yn Ne Caerdydd a Phenarth fel y cyfryw. Mae hyn yn gyson â chanlyniadau yr hyn a oedd yn ddiau yn refferendwm amherffaith yn ystod yr adolygiad cyffredinol diwethaf, a ddatgelodd fod 435 o 453 o ymatebwyr o blaid cadw pethau fel ag y maent. Mae'n eglur hefyd bod yr awdurdodau sy'n gwrthwynebu trosglwyddo wedi gwneud hynny ar linellau gwleidyddol amhleidiol.

31. Mae cryn dipyn o dystiolaeth hefyd am y patrwm twf yn yr etholaethau priodol. Mae etholaeth De Caerdydd a Phenarth yn cynnwys datblygiad Bae Caerdydd, yn rhanbarthau etholiadol Butetown a Grangetown. Mae'r ardal honno'n parhau i fod yn destun datblygiad preswyl sylweddol. Mae hynny'n amlwg o gerdded yn yr ardal. Byddai'n annoeth dibynnu ar argraff yn unig, ond rhwng 1999 a 2003 cynyddodd nifer yr etholwyr yn etholaeth De

Caerdydd a Phenarth o 61,397 i 64,566, sef cynnydd o 3,169; ac mae'r twf wedi parhau, gyda chynnydd net arall o 1,082 o 2003 i 2004, sef cynnydd o 6.9% mewn 5 mlynedd. Rhoddwyd tystiolaeth bod gwaith datblygu preswyl sylweddol yn dal i fynd ymlaen ym Mae Caerdydd, ac yn Anchor Way ym Mhenarth.

32. Ni chefais ffigurau union ar gyfer y niferoedd mawr o unedau sydd i'w hadeiladu a'u llenwi eto, a gochelaf rhag mynd ymlaen ar argraff yn unig. Roedd tystiolaeth bod datblygiad preswyl sylweddol mewn ardaloedd eraill o Dde Caerdydd hefyd, ond roedd yn gymharol annelwig. Mae'n bosibl bod ymdrechion i sicrhau cofrestriad etholiadol gwell wedi chwarae rhywfaint o ran yn y cynnydd yn nifer yr etholwyr, fel yr awgrymwyd gan Mr Costa. Fodd bynnag, rwy'n fodlon fod tystiolaeth eglur a dibynadwy bod gwaith datblygu preswyl sylweddol yn mynd ymlaen ym Mae Caerdydd, ac i raddau llai ym Mhenarth, ac y bydd hwnnw'n parhau am yr ychydig flynyddoedd nesaf o leiaf.

33. Mewn cyferbyniad, mae nifer yr etholwyr yn etholaeth bresennol Bro Morgannwg wedi bod yn gymharol sefydlog. Rhwng 1999 a 2003 cynyddodd o 68,447 i 68,698, cynnydd o 251 yn unig.

34. Erys y cwestiwn a fydd etholaeth Bro Morgannwg yn syml yn rhy fawr os na throsglwyddir Sili. Byddai ganddi 71,518 o etholwyr wedyn, gan ragdybio y bydd Llandŵ/Ewenni yn dod i mewn ar deilyngdod lleol. Roedd nifer o gynrychiolaethau o'r farn bod 71,518 naill ai 'ar y terfyn' neu'n ormodol. Mae'r ffigur hwn 15,878 uwchlaw'r cwota etholiadol ar gyfer Cymru gyfan. Rhaid ystyried hyn, gan fod Rheol 5 yn amodi y dylai nifer etholwyr unrhyw etholaeth fod mor agos at y cwota etholiadol ag sy'n ymarferol gan ystyried Rheolau 1 i 4. Fodd bynnag, mae Rheol 4 yn cael blaenoriaeth dros Reol 5 (R. v. Boundary Commission ex p. Foot CA 1983 1QB 600). Amoda Rheol 7 nad dyletswydd y Comisiwn fydd anelu i weithredu'n llawn y rheolau blaenorol ym mhob amgylchiadau, ond bydd yn ystyried yr anghyfleustra yn sgil newidiadau i etholaethau ac unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri.

Rwyf o'r farn bod y Comisiwn yn iawn yn ei gynnig i gadw 5 etholaeth ac nid 6 yn unol â Rheol 4 i beidio â chael etholaethau yn croesi ffin y sir gadwedig. Pan fydd y penderfyniad wedi'i wneud i ddyrannu 5 etholaeth i'r sir ac nid 6, 65,030 fydd cyfartaledd sirol yr etholwyr, ac ar y ffigur hwnnw yn fy marn i y dylid canolbwyntio sylw wrth ystyried cynigion priodol ar gyfer etholaethau.

35. Mae ffigur o 71,518 ar gyfer Bro Morgannwg yn 9.97% uwchlaw'r cyfartaledd sirol. Yn fy marn i, mae hyn yn wir ar y terfyn neu gerllaw. Y gwahaniaeth rhwng yr etholaeth fwyaf a'r etholaeth leiaf yn Ne Morgannwg fyddai 10,654. Efallai y sylwir bod y Comisiwn mewn mannau eraill yn yr adolygiad presennol yn cynnig nifer etholwyr sy'n uwch na'r cyfartaledd sirol o fwy na hyn (10.61% yng Ngwent/Morgannwg Ganol a 15.5% yng Nghlwyd), ond yn fy marn i pwysigrwydd ymylol yn unig sydd i hyn, gan fod y cyfartaledd sirol yn is nag yn Ne Morgannwg a gall amgylchiadau lleol wahaniaethu. O ddiddordeb ychydig yn fwy, y gwahaniaeth rhwng yr etholaeth fwyaf a'r etholaeth leiaf yn y siroedd hynny yw 14,151 a 16,355 yn eu tro.

36. Heb drosglwyddo Sili, cyfansymiau etholwyr y 5 sedd fyddai (ar ffigurau 2003):

| | |
|---|---|
| Cardiff Central BC | 60,864 |
| Cardiff North BC | 63,615 |
| Cardiff South and Penarth BC | 64,566 |
| Cardiff West BC | 64,587 |
| Vale of Glamorgan CC | 71,518 |

37. Caf fod cydbwysedd cyfartal rhwng y dadleuon priodol. Mae rheswm da i bryderu ynghylch maint absoliwt a chymharol Bro Morgannwg o gadw Sili. Ni chaf fy mherswadio y byddai trosglwyddo yn niweidio cysylltiadau lleol Sili yn fawr. Ond byddai'n torri cysylltiadau lleol, ac mae'r rhain yn hen gysylltiadau. Lle (1) mae hen gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan y trosglwyddo, (2) lle'r ymddengys bod maint etholaeth Bro Morgannwg yn

aros yn sefydlog a (3) lle mae twf grymus parhaus yn etholaeth De Caerdydd a Phenarth y byddai'r 3,289 o etholwyr Sili yn trosglwyddo iddi, rwyf o'r farn na fyddai 71,518 o etholwyr ar gyfer Bro Morgannwg mor ormodol bod gofyn trosglwyddo. Nid wyf felly yn argymell trosglwyddo Sili ac ni fyddwn yn newid fy nghasgliadau uchod mewn perthynas â Llandŵ/Ewenni a Saint-y-brid.

38. Rwyf wedi ystyried yr holl gynrychiolaethau a dderbyniwyd gan y Comisiwn a'r dystiolaeth a glywyd yn yr Ymchwiliad pa un a chyfeiriwyd ati'n unigol uchod neu beidio, ac rwyf wedi archwilio rhannau perthnasol o Dde Morgannwg, a Sili yn arbennig.

39. Lluniais fy marnau'n annibynnol. Ond caf fy nghysuro rywfaint gan y ffaith fod trosglwyddo Sili yn destun yn yr adolygiad diwethaf, ac roedd nifer etholwyr etholaeth Bro Morgannwg, pe bai'n cadw Sili, yn 10.2% uwchlaw'r cyfartaledd sirol bryd hynny; eto, roedd y Comisiynydd Cynorthwyol o'r farn nad oedd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i drosglwyddo Sili, a mabwysiadodd y Comisiwn yr un farn.

40. Yn unol â hynny, argymhellaf fod argymhellion dros dro y Comisiwn yn cael eu derbyn, ac eithrio y dylid cadw rhanbarth etholiadol Sili yn etholaeth Bro Morgannwg. Er eglurder ac i wneud cyfeirio'n hawdd, atodaf rannau perthnasol o'r Rheolau fel Atodlen 1, a'r argymhellion yn llawn yn ôl etholaeth a rhanbarthau etholiadol etholaethau fel Atodlen 2.

6 Awst 2004
Farrar's Building,
The Temple,
LONDON EC4Y 7BD — ANTHONY SEYS LLEWELLYN, CF.

## ATODLEN 1

Mae’r Rheolau ar gyfer Ailddosbarthu Seddau dan Parliamentary Constituencies Act 1986 yn amodi:

“4. (1) Cyn belled ag sy’n ymarferol ...

(a) (i) ni ddylai unrhyw sir neu ran o sir gael ei chynnwys mewn etholaeth sy’n cynnwys sir gyfan arall neu ran o sir arall ...

5. Dylai nifer etholwyr unrhyw etholaeth fod mor agos at y cwota etholiadol ag sy’n ymarferol … a gall [y Comisiwn] wyro rhag gweithredu Rheol 4 yn fanwl os yr ymddengys iddo fod gwyro yn ddymunol er mwyn osgoi gormod o wahaniaeth rhwng niferoedd etholwyr unrhyw etholaeth a’r cwota etholiadol …

6. Gall [y Comisiwn] wyro rhag gweithredu rheolau 4 a 5 yn fanwl os yr ymddengys iddynt fod ystyriaethau daearyddol, gan gynnwys yn benodol maint, siâp a hygyrchedd etholaeth, yn gwneud gwyro yn ddymunol.

### *Cyffredinol ac atodol*

7. Ni fydd yn ddyletswydd ar [y Comisiwn] i anelu i weithredu’n llawn y rheolau uchod ym mhob amgylchiad … ond byddant yn ystyried, cyn belled ag sy’n rhesymol bosibl -

(a) yr anghyfleustra yn sgil newidiadau i etholaethau ac eithrio newidiadau eraill a wneir at ddibenion rheol 4, ac

(b) unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai’n cael eu torri yn sgil newidiadau felly.”

**ATODLEN 2**

Etholaethau a argymhellir yn yr Adroddiad hwn:

**CARDIFF CENTRAL BC** (60,864) Rhanbarthau etholiadol **Sir Caerdydd**: Adamsdown, Cathays, Cyncoed, Pentwyn, Penylan, a Phlasnewydd.

**CARDIFF NORTH BC** (63,615) Rhanbarthau etholiadol **Sir Caerdydd**: Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Llysfaen, Ystum Llandaf, Llanisien, Pontprennau/Yr Hen Laneirwg, Rhiwbeina, Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais.

**CARDIFF SOUTH AND PENARTH BC** (64,566) Rhanbarthau etholiadol **Sir Caerdydd**: Butetown, Grangetown, Llanrhymni, Tredelerch, Y Sblot, a Trowbridge. Rhanbarthau etholiadol **Sir Bro Morgannwg**: Cornerswell, Llandough, Plymouth, St Augustine's, a Stanwell.

**CARDIFF WEST BC** (64,587) Rhanbarthau etholiadol **Sir Caerdydd**: Caerau, Canton, Creigiau/Sain Ffagan, Trelái, Y Tyllgoed, Llandaf, Pentyrch, Radyr, a Riverside.

**VALE OF GLAMORGAN CC** (71,518) Rhanbarthau etholiadol **Sir Bro Morgannwg**: Baruc, Buttrills, Cadoc, Castleland, Court, Y Bont-faen, Dinas Powys, Dyfan, Gibbonsdown, Illtyd, Llandŵ/Ewenni, Llanilltud Fawr, Llanbedr-y-fro, Y Rhws, Sain Tathan, Saint-y-brid, Sili, a Gwenfô.